Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddiabetes

Dydd Mercher 12 Mehefin 2019

**Ysgrifenyddiaeth: Josh James (JJ) ar ran Diabetes UK Cymru**
Roedd Menna Plassmann (AS) yn Ysgrifennydd dros dro ar gyfer y cyfarfod.

**Cadeirydd: Jayne Bryant AC (JB)**
Roedd John Griffiths AC (JG) yn Gadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod.

Agorwyd y cyfarfod am 12:30

**Eitem 1: Croeso**

JG: Diolchodd i'r holl fynychwyr am ymuno â ni, ac ymddiheurodd ar ran Jayne Bryant AC a Josh James nad oedd yn gallu mynychu oherwydd ymrwymiadau eraill.

**Eitem 2: Ble rydyn ni?**

JG: Cyflwynwyd Dai Williams (DW), Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diabetes UK Cymru.

DW: Rhoddodd ddiweddariad ar y Cynllun Cyflenwi Diabetes cyfredol. Nodwyd bod hyn i fod i ddod i ben yng ngwanwyn 2020 ond mae wedi'i ymestyn i redeg hyd ddiwedd 2020 nes bod gennym gynllun newydd. Ychwanegodd bod potensial ar gyfer cynllun newydd gwych, ond mae'n rhaid i ni ddysgu o wersi blaenorol. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r Cynllun Cyflenwi Diabetes cyfredol yn llawn, ac nid yw gwersi wedi'u dysgu o hyd gan Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol o 2013.

**Eitem 3: Mynd i'r Afael â'r Argyfwng - Syniadau ac arloesiadau newydd**

JG: Cyflwynwyd Sean Newton (SN), Rheolwr Ymgysylltu â'r GIG, Diabetes UK Cymru.

SN: Cyflwynodd adroddiad newydd Diabetes UK, "Taclo'r argyfwng", ac amlinellodd y pedwar prif bwnc wrth inni anelu at gynllun diabetes newydd:

1. Arloesi'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau; defnyddio syniadau, technoleg a thriniaethau newydd
2. Cynyddu mynediad at gefnogaeth emosiynol a seicolegol i bobl y mae diabetes yn effeithio arnynt
3.

**Eitem 4: Bywyd a stigma gyda diabetes**

JG: Cyflwynwyd Wendy Gane (WG), Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Cleifion Diabetes Cymru gyfan.

WG:

**Eitem 5: Gadewch i ni siarad am Stigma**

JG: Yn anffodus, bu'n rhaid i Rhiannon Hedge o Mind Cymru a oedd i fod i arwain y sesiwn hon anfon ei hymddiheuriadau i'r cyfarfod, felly hepgorwyd yr eitem hon.

**Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Diwedd y Cyfarfod**

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd: Dydd Mercher 6 Tachwedd 2019

*Diwedd y cyfarfod*